Capita

# Mae eich asesiad PIP yn Prosperity House, Derby

**Cyfeiriad**

Prosperity House,
Gower Street,
Derby,
DE1 1SB

**Oriau agor**

Dydd Llun i ddydd Gwener o 09:00 i 17:00

Mae map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf

---

**Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau, gwiriwch eich llwybr cyn teithio**

**Mewn car**

Mae'r ganolfan asesu wedi'i lleoli ar Gower Street a gallwch ei chyrraedd drwy Babington Lane oddi ar Lara Croft Way (A601). Mae Gower Street yn stryd unffordd ac mae'r ganolfan asesu wedi'i lleoli ychydig cyn y gyffordd â Green Lane.

Mae Prosperity House gyferbyn â Siop Dodrefn Hunter. Cerddwch heibio'r arwydd ar gyfer fflatiau Prosperity House, a pharhau tuag at Green Lane. Chwiliwch am yr arwyddion ar gyfer Coleg Juniper Training.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein ar 0808 178 8115**

**Parcio**

Mae llefydd parcio talu ac arddangos ar gael ar y stryd y tu allan i Prosperity House.

Mae llefydd parcio eraill ar gael yn Surface Car Park ar Babington Lane (DE1 1TE) sydd 0.2 milltir (5 munud ar droed) o'r lleoliad. Gall tacsis a gyrrwyr ollwng teithwyr yn uniongyrchol y tu allan.

---

**Ar drên**

Yr orsaf drenau agosaf yw Gorsaf Drenau Derby sydd tua milltir (15 munud ar droed) o'r ganolfan asesu.

Ewch allan o'r orsaf drenau, troi i'r chwith i gyfeiriad Railway Terrace a mynd ymlaen i Midland Road. Cerddwch heibio'r Post Brenhinol a throi i'r dde i gyfeiriad London Road.

Dilynwch London Road i lawr at y gylchfan. Trowch i'r chwith i gyfeiriad Bradshaw Way a defnyddio'r groesfan i fynd ar draws y gylchfan a pharhau i lawr London Road.

Cerddwch heibio Starbucks ar y dde i gyfeiriad St Peters Street. Ewch o amgylch y gornel gyda Waterstones. Trowch i'r dde i gyfeiriad Gower Street ac mae Prosperity House ar y dde i chi.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein ar 0808 178 8115**

Capita

**Ar fws**

Mae'r ganolfan asesu yn cael ei gwasanaethu gan lwybrau bysiau 4, 4A, 5, 5A a 7. Mae'r safle bws ar Babington Lane (DE1 1RH), sydd 500 troedfedd o'r ganolfan. Mae yna hefyd lwybr bws 35, sy'n stopio yn Gower Street (DE1 1SY) 300 troedfedd o'r ganolfan.

Gallwch ddal y bws o'r tu allan i'r orsaf drenau sy'n rhedeg bob 7 munud i'r Orsaf Fysiau, sef Skylink Derby, 1 ac 1A. Mae'n cymryd 8 munud i gerdded yno o Prosperity House

---

**Mae eich asesiad PIP yn Prosperity House, Derby**




Data'r map ©2022 Google

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein ar 0808 178 8115**



**Pan fyddwch yn cyrraedd**

Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi. Pan fyddwch chi'n cyrraedd y ganolfan, pwyswch y botwm galw sydd â'r label Capita ac aros am ymateb.

Ar ôl i'r derbynnydd gadarnhau eich enw, pwyswch y botwm mynediad arian mawr i'r dde o'r drws i fynd i mewn i'r adeilad.

Rhowch wybod i'r derbynnydd eich bod wedi cyrraedd ar gyfer eich apwyntiad.

---

**Gwybodaeth ddefnyddiol**

Mae ramp ar gael, ac mae toiledau hygyrch ar gael yn y ganolfan.

**Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau, ffoniwch ein ar 0808 178 8115**